# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.30 ar 20 MEDI 2022, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

| | |
|---|---|
| <u>Aelodau â phleidlais</u>: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr) (tan gofnod 12); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer cofnod 12); Dr Otar Akanyeti; Dr Hazel Davey; Dr Sarah Davies; yr Athro Iain Donnison; Dr Rebecca Edwards; Dr Patrick Finney; Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen PA y CCC; yr Athro Mererid Hopwood; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Ffion Jones; Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA; Dr Alex Mangold; Ms Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Louise Marshall; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Dr Heather Norris, Seicoleg; Ms Aisleen Sturrock, Llywydd UMAber; yr Athro Eleri Pryse; yr Athro Phillipp Schofield; Dr Lucy Trotter; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| <u>Aelodau heb bleidlais</u>: | Dr Cathryn Charnell-White; yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; yr Athro Andrew Evans; Dr Thomas Jansen; yr Athro Jamie Medhurst; a'r Athro Helen Roberts, <u>Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil</u>. |
| <u>Yn gweinyddu</u>: | Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Dr Gethin Rhys, Cofrestrydd Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; Mr Jacob Webb, Pennaeth Llais y Myfyrwyr (Sylwedydd); Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd; a Ms Kath Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol. |

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dr Guy Baron; yr Athro Nigel Holt; Dr Sarah Higgins; Dr Samuel Raybone; a Dr Anoush Simon.

## 1. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. <u>Croeso</u>

    1. Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r Senedd:

        1. Mr Jonathan Fry (Cadeirydd Cangen PA y CCC)
        2. Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA;
        3. Ms Aisleen (Ash) Sturrock, Llywydd UMAber;
        4. Dr Otar Akanyeti, Cyfrifiadureg;
        5. Dr Lucy Trotter, Addysg;
        6. Ms Jen Phipps, Y Gyfraith a Throseddeg;

7. Dr Alexander Pitchford, Mathemateg;

8. Yr Athro Mererid Hopwood, Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd;

9. Dr Gethin Rhys (clerc dros dro i'r Senedd)

2. Croesawyd y canlynol hefyd yn arsylwr heb bleidlais o'i adran academaidd:

1. Yr Athro Jamie Medhurst - yn cynrychioli'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

2. <u>Cydymdeimlad</u>

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Emeritws Paul Avtar Singh Ghuman, yr Ysgol Addysg;

2. Tony Curwen, Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth.

3. <u>Bore Strategaeth y Senedd</u>

1. Cyn y cyfarfod ffurfiol roedd y Senedd wedi cynnal Bore Strategaeth llwyddiannus. Rhoddwyd copïau o'r holl gyflwyniadau ar SharePoint er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol.

2. Roedd yr Is-Ganghellor wedi cyflwyno diweddariad manwl i'r aelodau yn y Diwrnod Strategaeth, ac felly ni fyddai'n cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod ffurfiol y Senedd.

4. <u>Ysgrifennydd Dros Dro a Chynorthwyo Llywodraethu</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, Kath Williams (SEN2223-002).

NODWYD

1. Byddai Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd y Brifysgol, yn ymgymryd â dyletswyddau Ysgrifennydd Dros Dro hefyd o ddydd Gwener 30 Medi 2022, tan y daw Dr Gwawr Taylor yn ôl yn dilyn cyfnod mamolaeth. Byddai rheolaeth y pwyllgorau llywodraethu yn cael eu hychwanegu at ddyletswyddau cydweithwyr yn y Gofrestrfa Academaidd yn bennaf, gyda chymorth gan y Swyddfa Gynllunio, y Swyddfa Gyllid, a Swyddfa'r Is-Ganghellor.

5. <u>Aelodaeth y Senedd a diweddariadau i Ordinhadau (16 a 17)</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, Kath Williams (SEN2223-003).

NODWYD:

1. Yn dilyn rhannu IBERS yn ddwy uned academaidd ar wahân (IBERS ac Adran y Gwyddorau Bywyd) o 1 Awst 2022, roedd y trefniadau aelodaeth wedi'u hadolygu. Byddai'r Athro Hazel Davey a'r Athro Iain Donnison yn parhau i

gynrychioli’r Gwyddorau Bywyd ac IBERS yn y drefn honno yn aelodau llawn â phleidlais, am y flwyddyn academaidd bresennol. Roedd Pennaeth newydd Adran y Gwyddorau Bywyd, yr Athro Iain Barber, hefyd wedi'i benodi, ac fe fyddai'n bresennol yn Bennaeth Adran heb bleidlais am y flwyddyn academaidd bresennol.

2. Ar ôl symud y Ganolfan Saesneg Ryngwladol i fod yn rhan o’r Swyddfa Marchnata a Denu Myfyrwyr a’i hail-ddynodi o fod yn Gyfadran academaidd, byddai cynrychiolaeth uniongyrchol o'r uned yn dod i ben o ddechrau blwyddyn academaidd 2022/23. Byddai unrhyw ddarpariaeth academaidd a allai gynnwys y Ganolfan Saesneg Ryngwladol yn cael ei dilysu trwy Gyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, a byddai cynrychiolaeth y materion hynny yn y Senedd yn cael ei oruchwylio naill ai gan Ddirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran neu gan Ddirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr.

3. Llongyfarchiadau’r Senedd i'r Athro Qiang Shen ar ei ethol yn Gymrawd yr Academi Beirianneg Frenhinol.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodi'r trefniadau newydd ar gyfer y Ganolfan Saesneg Ryngwladol, ac i ddiolch i John Morgan a Rachael Davey am eu cyfraniad i'r Senedd fel aelodau o'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol.

## 2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

## 3. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

1. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022 (SEN2223-005).

PENDERFYNWYD

2. Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

1. Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2223-006).

2. Adroddiad ar Sgiliau Astudio yn Aberystwyth (SEN2122-021).

NODWYD

3. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

4. Derbyniwyd yr adroddiad ar Sgiliau Astudio yn Aberystwyth er gwybodaeth mewn ymateb i Gam Gweithredu 7.7. Byddai'r ddarpariaeth cymorth iaith i fyfyrwyr y tu allan

i'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol yn cael ei hadolygu yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol.

5. Byddai'r Polisi Cynaliadwyedd (cofnod 53) yn cael ei gau ddiwedd mis Tachwedd 2022.

**PENDERFYNWYD**

6. Cynnal adolygiad pellach o'r cymorth iaith i fyfyrwyr y tu allan i'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol **[GWEITHREDU: Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr]**.

**5. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2223-007).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar achosion ers cyfarfod diwethaf y Senedd lle cafodd materion eu cymeradwyo gan yr Is-Ganghellor ar ran y Senedd.

2. Y materion a gymeradwywyd gan yr Is-Ganghellor oedd mân ddiwygiadau i'r rheoliadau academaidd ar gyfer dyfarniadau cychwynnol modiwlaidd, i'r cymwysterau canlynol:

    1. Graddau MEng ac MComp, i ddod â'r rheoliadau yn unol â gofynion achredu allanol.

    2. BA Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar.

**6. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**7. MATERION YMCHWIL**

1. <u>Hybu Ymchwil: Absenoldeb Ymchwil</u>

    DERBYNIWYD

    Adroddiad gan Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor, Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi (SEN2223-008).

    NODWYD

    1. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol wedi cymeradwyo papur ynglŷn â hybu ymchwil, yn cynnwys cynllun newydd ar gyfer absenoldeb ymchwil. Roedd y papur i'r Senedd yn amlinellu'r egwyddorion a'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu. Byddai'r cynllun yn blaenoriaethu rhagoriaeth mewn ymchwil, ond byddai hefyd yn cynnwys ystyriaethau cynwysoldeb.

    2. Byddai'r cynllun absenoldeb ymchwil yn cael ei weithredu dros dro yn ystod 2022/23, ac yna'n cael ei adolygu. Byddai'r adolygiad yn cynnwys asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

PENDERFYNWYD:

3. Cymeradwyo'r egwyddorion a'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu absenoldeb hybu ymchwil ar gyfer sesiwn 2023-4 a thu hwnt, yn amodol ar fân newidiadau.

4. Gwahodd aelodau'r Senedd i anfon sylwadau pellach ar y cynllun absenoldeb ymchwil at y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) erbyn diwedd mis Medi 2022.

2. Y Ganolfan Ddeialog (er gwybodaeth)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor, Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi (SEN2223-009).

NODWYD

1. Roedd datblygu Canolfan Ddeialog i'r Brifysgol yn gam arloesol allweddol mewn ymateb i Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru CCAUC. Trwy gyfrwng pum ffrwd gweithgaredd, byddai'r Ganolfan Ddeialog yn hwyluso rhagoriaeth wrth gyfnewid gwybodaeth, gan gynyddu effaith ymchwil y Brifysgol a rhoi mwy o gyfleoedd i arloesi. Byddai goruchwyliaeth strategol yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng Bwrdd Rheoli, a fyddai'n atebol i Weithrediaeth y Brifysgol.

**PENDERFYNWYD**

2. Croesawu datblygiad Canolfan Ddeialog y Brifysgol a chymeradwyo'r fframwaith llywodraethu ar ei chyfer.

## 8. PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN2223-010).

NODWYD

O fis Ebrill 2022 ymlaen, roedd gofynion Mynediad Agored i'r rhai sy'n derbyn grantiau gan UKRI ac Ymddiriedolaeth Wellcome yn cynnwys Cadw Hawliau. Byddai polisi i'r rhai sy'n gwneud cais am grantiau UKRI ac Ymddiriedolaeth Welcome, gan gynnwys dull ar gyfer eithrio, yn cael ei ddiweddaru a'i roi ar wefan y Brifysgol. Byddai papur wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.

## 9. ADRODDIAD O'R BWRDD ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick (SEN2223-011).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd ar 13 Gorffennaf ac 16 Medi 2022. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

2. Roedd dyddiadau tymor am 2024/25 wedi'u cadarnhau. Cytunwyd i bwysleisio bod gofyn i uwchraddedigion ymchwil amser llawn fyw yn Aberystwyth am 44 wythnos y flwyddyn, oni bai eu bod yn cymryd rhan mewn gwaith maes wedi'i gymeradwyo.

3. Roedd Cynllun Gweithredu i'r Arolwg Gwella Ansawdd wedi'i gyhoeddi ar ôl cael ei gymeradwyo gan yr Is-Ganghellor a Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

4. Roedd Undeb y Myfyrwyr wedi cadarnhau ei bod yn fodlon ag ymateb y Brifysgol i Gyflwyniad Blynyddol yr Undeb.

5. Cafodd newid bach i Reoliad Ymddygiad Academaidd Annerbyniol ei gymeradwyo, er mwyn rhybuddio myfyrwyr am ganlyniadau cydgynllwynio. Cytunwyd y dylid egluro ymhellach er mwyn gwahaniaethu rhwng lledaenu ymchwil a rhannu gwaith sydd wedi cael ei asesu. Byddai angen i hyn gael ei gyhoeddi gan Undeb y Myfyrwyr ac adrannau academaidd.

6. Roedd datganiad Canlyniadau Gradd 2021 wedi nodi cynnydd bach yn nifer y graddau anrhydedd dosbarth cyntaf. Byddai gwaith yn parhau i sicrhau bod ymdrechion a chyflawniadau myfyrwyr yn cael eu cydnabod ar draws pob adran, wrth roi sylw hefyd i bryderon UUK a CCAUC am dueddiadau'r sector yn gyffredinol.

**PENDERFYNWYD**

1. Adolygu canllawiau ynglŷn â gwaith maes cymeradwy yng nghyswllt gofynion preswyl uwchraddedigion ymchwil. **[GWEITHREDU: Y Cofrestrydd Academaidd]**

2. Cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd i dynnu sylw at beryglon cydgynllwynio. **[GWEITHREDU: Cofrestrydd Academaidd / Undeb y Myfyrwyr]**

3. Cyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng lledaenu ymchwil a rhannu gwaith sydd wedi cael ei asesu. **[GWEITHREDU: Y Cofrestrydd Academaidd]**

## 10. ADRODDIAD GAN FWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN2223-012).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol ar 07 Gorffennaf 2020. Trafodwyd yr adroddiad gan aelodau'r Senedd.

## 11. IS-STRATEGAETH ACADEMAIDD CYFRWNG CYMRAEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor, (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) (SEN2223-013).

NODWYD

1. Cafodd yr Is-Strategaeth ei datblygu mewn ymgynghoriad â myfyrwyr a staff, Cangen Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a phartneriaid allanol, ac roedd

cyflogadwyedd yn flaenoriaeth allweddol. Byddai'n hyrwyddo cynaliadwyedd darpariaeth drylwyr, wedi'i gysylltu ag ymrwymiad i ddenu a chroesawu myfyrwyr nad oes ganddynt lawer o hyder yn eu rhuglder yn yr iaith. Byddai is-strategaeth y Brifysgol yn unol â blaenoriaethau presennol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Byddai'r is-strategaeth yn cael ei chyflwyno hefyd i gyfarfod y Cyngor ym mis Medi.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r Is-Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg a'i chyfeirio ymlaen i'r Cyngor. **[GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Brifysgol]**

**12. IS-STRATEGAETH Y GYMRAEG A DIWYLLIANT CYMRU 2019-2023: ADRODDIAD CYNNYDD 2021-22 A CHAMAU I'W GWEITHREDU YN 2022-23.**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg, Diwylliant Cymru a Chysylltiadau Allanol, a Dylan Hughes, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg (SEN2223-014).

NODWYD

Y cynnydd a wnaed ynglŷn â'r camau gweithredu a'r dangosyddion yn ystod 2021/22, a'r camau arfaethedig am 2022/23, yn canolbwyntio ar ailsefydlu gweithgareddau a chyfleoedd yr amharwyd arnynt gan y pandemig. Byddai pwyslais arbennig yn cael ei roi ar gynyddu nifer y cynhyrchion ymchwil cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i'r FfRhY nesaf, i'w hystyried ymhellach gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) a Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol).

**13. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2223-015);

2. Grantiau Ymchwil (SEN2223-016);

3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2021-017); a

4. Yr Arolwg Gwella Ansawdd: Ymateb i'r Adroddiad Terfynol a'r Cynllun Gweithredu (SEN2223-018);

NODWYD

5. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**14. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN2223-019):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (24 Mehefin 2022);

2. Y Bwrdd Academaidd (13 Gorffennaf 2022 ac 16 Medi 2022);

3. Y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (07 Gorffennaf 2022); a

4. Y Cyngor (07 Gorffennaf 2022)

NODWYD

5. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

**15. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

NODWYD

Dymuniadau gorau a diolch y Senedd i Kath Williams, a fyddai'n gadael ei swydd yn Ysgrifennydd Dros Dro ddiwedd mis Medi, i gymryd swydd newydd ym Mhrifysgol Glasgow.